Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

## Gwelliannau Cyfnod 2

Mai 2023



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 7174**
E-bost: **Katy.Orford@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

## Gwelliannau Cyfnod 2

Mai 2023

**Awdur:**
Katy Orford

## Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi Cyfnod 2 yn hynt y Bil Amaethyddiaeth (Cymru) drwy'r Senedd.

Yn ystod **Cyfnod 2** o'r gwaith craffu ar Fil, mae Aelodau o'r Senedd yn cyflwyno gwelliannau y mae pwyllgor yn eu trafod ac yn pleidleisio arnynt. Dim ond Aelodau'r pwyllgor cyfrifol a gaiff bleidleisio ar y gwelliannau. Ar ôl pleidleisio ar y gwelliant olaf, bydd y Bil yn symud i Gyfnod 3, lle caiff rhagor o welliannau eu cyflwyno. Mae'r Senedd yn trafod ac yn pleidleisio ar y gwelliannau dethol yn y Cyfarfod Llawn.

Dechreuodd **ystyriaethau Cyfnod 2 ar y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)** (y Bil), gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (y Pwyllgor), ar 8 Chwefror 2023 a daethant i ben ar 23 Mawrth. Gwnaeth y Pwyllgor gynnal cyfarfod i drafod gwelliannau Cyfnod 2 **ar 23 March 2023**; cyflwynwyd 61 o welliannau, a derbyniwyd 14 ohonynt.

Mae rhagor o fanylion am ddarpariaethau'r Bil a'r gwaith craffu arno yn ystod Cyfnod 1 ar gael yn **Y Bil Amaethyddiaeth (Cymru): Crynodeb o'r Bil**. Mae'r dogfennau allweddol eraill yn cynnwys:

- **Bil Amaethyddiaeth (Cymru)** a'r **Memorandwm Esboniadol** fel y'u cyflwynwyd;
- **Bil Amaethyddiaeth (Cymru)** fel y'i diwygiwyd ar ôl Cyfnod 2;
- **Adroddiad Cyfnod 1** Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ac **ymateb** Llywodraeth Cymru;
- **Rhestr o welliannau Cyfnod 2 wedi'u grwpio**; a
- **Rhestr o welliannau Cyfnod 2 wedi'u didoli**.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ... 1**

**2. Gwelliannau Cyfnod 2 ... 1**

Grŵp 1: Yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy ... 2

Grŵp 2: Statws cyfartal yr amcanion ... 2

Grŵp 3: Adroddiadau rheoli tir yn gynaliadwy ... 3

Grŵp 4: Safonau Gofynnol Cenedlaethol ... 3

Grŵp 5: Darparu cymorth i ffermwyr ... 4

Grŵp 6: Adennill symiau sy'n ddyledus ... 5

Grŵp 7: Cynlluniau cymorth amlflwydd ... 5

Grŵp 8: Ymyrraeth mewn Marchnadoedd Amaethyddol – Costau mewnbwn ... 6

Grŵp 9: Tenantiaethau amaethyddol ... 7

Grŵp 10: Casglu data ... 7

Grŵp 11: Coedwigaeth ... 8

Grŵp 12: Bywyd gwyllt – defnyddio maglau ... 9

Grŵp 13: Gweithdrefn gwneud rheoliadau ... 9

Grŵp 14: Diffinio amaethyddiaeth ... 9

Grŵp 15: Cychwyn Rhan 4 o Atodlen 7 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 – diwygiadau canlyniadol ........ 9

Grŵp 16: Teitl hir ........ 10

**3. Y camau nesaf ........ 10**

# 1. Cyflwyniad

**Cyflwynwyd y Bil Amaethyddiaeth (Cymru)** i'r Senedd ar 26 Medi 2022 gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd (y Gweinidog).

Mae'r Bil yn cyflwyno fframwaith newydd ar gyfer cymorth amaethyddol yn seiliedig ar 'Reoli Tir yn Gynaliadwy'. Mae'n caniatáu pontio o system gymorth Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE.

Os bydd yn cael ei ddeddfu, bydd y pwerau newydd hyn yn caniatáu i **Gynllun Ffermio Cynaliadwy** (CFfC) Llywodraeth Cymru gael ei gyflwyno. Cafodd **cynigion bras ar gyfer y CFfC** eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2022 ac mae'n destun ymgynghoriad pellach cyn y bwriedir iddo gael ei gyflwyno yn 2025. Byddai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn gwobrwyo ffermwyr am gamau gweithredu amgylcheddol yn bennaf, ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy. Mae **canllaw arall gan Ymchwil y Senedd** yn rhoi crynodeb o'r cynigion CFfC.

Mae'r Bil hefyd:

- yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru a fydd yn disodli'r rhai a fydd yn dod i ben yn **Neddf Amaethyddiaeth y DU 2020**. Mae'r pwerau hyn yn ymwneud ag ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol; ar gasglu a rhannu data, a safonau marchnata a dosbarthiad carcasau;
- yn diwygio **Deddf Daliadau Amaethyddol 1986** i sefydlu prosesau datrys anghydfod ar gyfer tenantiaid Deddf Daliadau Amaethyddol (AHA), gyda'r nod o'u helpu i allu cael cymorth yn y dyfodol;
- yn diwygio **Deddf Coedwigaeth 1967**, gan roi pwerau i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ychwanegu amodau amgylcheddol at drwyddedau cwympo coed, ac i ddiwygio, atal a dirymu trwyddedau cwympo coed; ac
- yn diwygio **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981** i wahardd defnyddio maglau (ac atalyddion cebl eraill) a thrapiau glud.

# 2. Gwelliannau Cyfnod 2

Trafododd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y **61 gwelliant a gyflwynwyd** i'r Bil ar 23 Mawrth 2023. Derbyniwyd 14 ohonynt – pob un ohonynt yn welliannau gan y Llywodraeth.

Cafodd y gwelliannau eu **grwpio gyda'i gilydd** er mwyn hwyluso'r ddadl - roedd

16 grŵp. Mae'r **rhestr o welliannau wedi'u didoli** yn nodi'r gwelliannau yn y drefn y cawsant eu gwaredu.

Cyflwynwyd 14 o welliannau gan y Gweinidog, 42 gan Samuel Kurtz AS (gyda naw o'r rhain yn cael eu cefnogi gan Luke Fletcher AS), a phump gan Luke Fletcher AS.

Mae manylion y gwelliannau o bob grŵp, ynghyd â'u tynged, wedi'u nodi isod.

## Grŵp 1: Yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys wyth gwelliant (57, 1A, 1, 43, 2, 3, 29 a 4). Gwelliant 29 y llywodraeth yw'r unig welliant a dderbyniwyd yn y grŵp hwn.

Ychwanegodd gwelliant 29 "gwytnwch busnesau amaethyddol o fewn y cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt" fel ffactor perthnasol wrth benderfynu a yw bwyd a nwyddau eraill yn cael eu cynhyrchu mewn modd cynaliadwy at ddibenion amcan cyntaf Rheoli Tir yn Gynaliadwy (SLM) y Bil. Dywedodd y Gweinidog bod y gwelliant yn deillio o drafodaethau gyda Phlaid Cymru fel rhan o'r **Cytundeb Cydweithio**.

Ni dderbyniwyd y gwelliannau eraill, a gyflwynwyd gan Samuel Kurtz AS a Luke Fletcher AS. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cyflwyno gofyniad i ddiogelu diogeledd bwyd yn yr amcan cyntaf Rheoli Tir yn Gynaliadwy (gwelliant 57);
- i fod yn gliriach ynghylch pwy sy'n cael cefnogaeth – yn benodol, ffermwyr gweithredol (gwelliannau 1 ac 1A);
- i gynnwys "ei dirwedd" i ychwanegu eglurder am y tir sy'n cael ei warchod (gwelliant 43);
- i bwysleisio cadwraeth a gwella mynediad cyhoeddus "presennol" (gwelliant 2);
- i ychwanegu "diogelu hyfywedd economaidd" at y pedwerydd amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy i ddiogelu busnesau fferm (gwelliant 3);
- i gyflwyno pumed amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy, sy'n ceisio diogelu bywoliaethau a chymunedau gwledig (gwelliant 4).

## Grŵp 2: Statws cyfartal yr amcanion

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys un gwelliant (gwelliant 5) gan Samuel Kurtz AS, na chafodd ei dderbyn. Ei nod oedd sicrhau bod pob un o'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cael eu "trin yn gyfartal ac i'w hystyried gyda'i gilydd".

## Grŵp 3: Adroddiadau rheoli tir yn gynaliadwy

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys pum gwelliant a gyflwynwyd (58, 44, 6, 7 a 45) gan Samuel Kurtz AS a Luke Fletcher AS. Ni dderbyniwyd yr un ohonynt.

Roedd y gwelliannau'n ceisio gwneud yr hyn a ganlyn:

- gwella'r gofyniad adrodd Rheoli Tir yn Gynaliadwy ar Lywodraeth Cymru drwy gynnwys esboniad o sut y mae Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau mewn perthynas ag amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy ar y cyd â'r dangosyddion a'r targedau (gwelliant 58);
- symud y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi a gosod datganiad dangosyddion a thargedau Rheoli Tir yn Gynaliadwy (gwelliant 44);
- cyflwyno gofyniad ar Weinidogion Cymru i lunio 'Adroddiad Cynhyrchiant' a fyddai'n asesu unrhyw faterion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn berthnasol at ddibenion asesu cynhyrchiant amaethyddol a'r lefelau cynhyrchu bwyd (gwelliannau 6 a 7); a
- cynyddu amlder adroddiadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy (gwelliant 45).

## Grŵp 4:  Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys un gwelliant (gwelliant 46), a oedd yn '**welliant procio**' gan Samuel Kurtz AS, a chafodd ei dynnu yn ôl yn dilyn dadl. Ei nod oedd ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer safonau gofynnol cenedlaethol ochr yn ochr ag unrhyw gynllun cymorth amaethyddol. Bydd Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn darparu'r llinell sylfaen reoleiddio, gyda ffermwyr yn cael eu gwobrwyo trwy'r CFfC am ragori ar y sylfaen hon.

Mae Safonau Gofynnol Cenedlaethol eisoes yn bodoli ac yn cynnwys rheolau '**trawsgydymffurfio**' yr UE. O fewn hyn, mae Gofynion Rheoli Statudol yn berthnasol i bob ffermwr ac mae mynd yn groes i'r rhain yn drosedd. Mae amodau amaethyddol ac amgylcheddol da yn berthnasol i ffermwyr a oedd yn cael cymorth gan y system CAP ac mae mynd yn groes iddynt yn arwain at gosbau o ran y cymorth ariannol hwnnw. **Bwriad y Gweinidog** fu cydgrynhoi deddfwriaeth bresennol, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n sail ar hyn o bryd i'r gofynion trawsgydymffurfio, i roi eglurhad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Roedd y **Papur Gwyn** cyn y Bil yn cynnig pwerau a fyddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i greu Safonau Gofynnol Cenedlaethol drwy reoliadau, a fyddai'n cael eu defnyddio i gydgrynhoi'r ddeddfwriaeth bresennol. Roedd hefyd yn cynnig cyflwyno pwerau sylfaenol ar gyfer ystod o sancsiynau sifil ar gyfer diffyg cydymffurfio. Ni chafodd y

pwerau Safonau Gofynnol Cenedlaethol a sancsiynau sifil eu cynnwys yn y Bil fel y'i cyflwynwyd.

Nododd **Adroddiad Cyfnod 1** y Pwyllgor ar y Bil y lefel uchel o ddisgwyliad gan randdeiliaid y dylid cyflwyno Safonau Gofynnol Cenedlaethol ochr yn ochr ag unrhyw gynllun cymorth amaethyddol newydd. Gwnaeth argymhelliad (Argymhelliad 4) y dylai'r Gweinidog roi ystyriaeth i sut y mae bwriad y polisi ynghylch Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael ei gyfleu i randdeiliaid fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Gofynnodd i'r Gweinidog gadarnhau ei bwriadau o ran y Safonau, gan gynnwys a fydd deddfwriaeth bellach yn cael ei chyflwyno. Yn ogystal ag **ymateb y Gweinidog** i'r adroddiad, rhoddodd ddiweddariad i'r Pwyllgor yn ystod trafodion Cyfnod 2, gan dynnu sylw at y ffaith bod y Safonau eisoes yn bodoli. **Dywedodd**:

> Cross-compliance provides for the administrative monetary penalty scheme that applies to recipients of the basic payment scheme, and will be considered as part of the design of the sustainable farming scheme. As already stated, officials are exploring whether new primary and secondary legislation powers are required to confirm the existing regulatory baseline and its regulations; or provide a mechanism to create new NMS, and consolidate the existing regulations comprising NMS under a single statute and regulation.

Tynnodd Samuel Kurtz AS y gwelliant yn ôl yn dilyn yr esboniad hwn.

## Grŵp 5: Darparu cymorth i ffermwyr

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys naw gwelliant (8, 9, 30A, 30, 10, 11, 12, 13 a 47) gan Samuel Kurtz AS a'r Gweinidog. Gwelliant y llywodraeth (gwelliant 30) yw'r unig welliant a dderbyniwyd.

Mae gwelliant 30 yn cyflwyno tri diben ychwanegol i'r pŵer i ddarparu cymorth o dan adran 8 o'r Bil. Y rhain yw:

- helpu cymunedau gwledig i ffynnu a chryfhau'r cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau;
- gwella gwytnwch busnesau amaethyddol;
- cynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.

**Dywedodd y Gweinidog** yr hyn a ganlyn am y gwelliant:

> …supports the resilience of agricultural business through enabling an effective, efficient, sustainable and, therefore, profitable production base and supply chain that links back to the farmer.

Ymhlith y gwelliannau eraill gan Samuel Kurtz AS na gafodd eu derbyn roedd:

- i newid y terminoleg o ran pa mor gynhwysfawr oedd y rhestr o ddibenion y caiff Gweinidogion Cymru ddarparu cymorth ar eu cyfer o dan adran 8 (gwelliant 8);
- i gynnwys elfennau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol cynaliadwyedd yn benodol o fewn diben cyntaf y cymorth o dan adran 8 (gwelliant 9);
- i ychwanegu "economaidd" at welliant 30 y llywodraeth i gryfhau gwytnwch economaidd busnesau amaethyddol (gwelliant 30A);
- i ychwanegu cyfeiriad penodol at y rhai sy'n "dechrau gweithgaredd amaethyddol, neu wella cynhyrchiant gweithgaredd amaethyddol" a sicrhau cefnogaeth bwrpasol i newydd-ddyfodiaid a'r rhai sy'n dychwelyd i'r diwydiant (gwelliannau 10 ac 11);
- i gael gwared ar yr ymadrodd "atafaelu a storio carbon i'r graddau gorau posibl" a mewnosod "optimeiddio atafaelu a storio carbon" - i geisio osgoi achos lle byddai'r pwrpas hwn yn niweidiol i amcanion eraill Rheoli Tir yn Gynaliadwy ac i 'optimeiddio' yr hyn sydd eisoes yn bodoli i wella effeithlonrwydd dal carbon (gwelliant 12);
- i gynnwys yn benodol ddefnyddio ynni adnewyddadwy a thechnolegau ynni adnewyddadwy fel diben ar gyfer cymorth (gwelliant 13);
- i gyfyngu ar gymorth ariannol i rai derbynwyr, h.y. ffermwyr yng Nghymru yn hytrach na: "**multinational corporations or other bodies who are in possession of Welsh agricultural land [and] have access to or are in receipt of public money**" (gwelliant 47).

## Grŵp 6: Adennill symiau sy'n ddyledus

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys tri gwelliant gan y llywodraeth (31, 33 a 34) - derbyniwyd pob un.

Gwelliannau technegol oedd y rhain er mwyn ymateb i **argymhelliad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** i sicrhau cysondeb o ran drafftio. Byddant yn galluogi adennill symiau sy'n ddyledus yn erbyn cosbau ariannol, gan gynnwys diogelwch ar gyfer taliad drwy adeiladu ar y darpariaethau a gynhwysir yn adrannau 11, 32 a 33.

## Grŵp 7: Cynlluniau cymorth amlflwydd

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys dau welliant (gwelliannau 14 a 15). Cyflwynwyd y ddau gan Samuel Kurtz AS a'u tynnu'n ôl wedyn yn dilyn dadl.

Byddai gwelliant 14 wedi ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cynlluniau cymorth amlflwydd sy'n rhoi gwybodaeth am y defnydd disgwyliedig o'r pwerau cymorth o dan adrannau 8 a 9 o'r Bil. Byddai cynllun yn cynnwys manylion blaenoriaethau strategol Gweinidogion Cymru ar gyfer rhoi cymorth ariannol a chymorth arall yn ystod cyfnod y cynllun. **Y rhesymeg** ar gyfer y gwelliannau oedd, yn ôl Samuel Kurtz AS, darparu'r gallu angenrheidiol i'r rhai oedd yn cael cyllid y Llywodraeth i baratoi ar gyfer posibiliadau yn y dyfodol. Mae adran 4 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 yn cynnwys darpariaethau tebyg ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol amlflwydd ar gyfer ffermwyr yn Lloegr. Roedd amcan gwelliant 15 yn debyg, ond byddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru a byddai angen 'Datganiad o Fwriad'.

Roedd Luke Fletcher AS yn cefnogi'r gwelliannau, a **dywedodd**:

> Without long-term funding security, Welsh farmers may struggle to plan and invest in their businesses, which could impact their ability to produce high-quality produce and meet the demands of consumers.

Tynnwyd y ddau welliant yn ôl. Roedd hyn yn dilyn ymateb y Gweinidog ei bod yn datblygu gwelliant sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno cynllun cymorth amlflwydd yng Nghyfnod 3.

## Grŵp 8: Ymyrraeth mewn Marchnadoedd Amaethyddol – Costau mewnbwn

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys saith gwelliant (16, 17, 48, 49, 50, 51, 52), pob un ohonynt gan Samuel Kurtz AS, ac ni dderbyniwyd yr un ohonynt.

Byddai'r gwelliannau yn y grŵp hwn yn caniatáu cynnydd sydyn neu annisgwyl mewn costau mewnbwn amaethyddol er mwyn cael amodau eithriadol y farchnad. Yn ei dro, byddai hyn yn caniatáu rhoi cymorth ariannol i ffermwyr o dan adran 21. Dywedodd Samuel Kurtz AS eu bod wedi cael eu cyflwyno er mwyn cefnogi'r diwydiant amaethyddol pe bai newid sylweddol o ran costau mewnbwn, gan nodi digwyddiadau diweddar gan gynnwys rhyfel Wcráin a'r cynnydd yng nghostau bwyd, gwrtaith a thanwydd.

**Dywedodd y Gweinidog wrth** y Pwyllgor: "Providing financial assistance for input costs could have an adverse impact on the UK internal market and our subsidy control obligations".

## Grŵp 9: Tenantiaethau amaethyddol

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys pedwar gwelliant (53, 54, 55 a 59) gan Samuel Kurtz AS a Luke Fletcher AS. Tynnwyd gwelliant 54 yn ôl yn dilyn dadl, ac ni dderbyniwyd y gweddill.

Mae Adran 23 o'r Bil yn diwygio adran 19A o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986. Mae'r pŵer diwygio hwn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddarparu trefniadau datrys anghydfod i denantiaid amaethyddol. Byddai hyn yn cefnogi'r rhai sydd mewn anghydfod â landlordiaid ynghylch cymalau cyfyngol yn eu cytundebau tenantiaeth, a allai eu hatal rhag manteisio ar y cymorth ariannol a gaiff ei ddarparu o dan y Bil. Nid yw'r pŵer hwn yn ymestyn i denantiaid o dan **Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995**.

Byddai gwelliant 54 a dynnwyd yn ôl wedi ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n galluogi tenantiaid fferm (o dan Ddeddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995) i ofyn am gymrodeddu lle nad ydynt wedi gallu cytuno ar newidiadau i'w cytundeb tenantiaeth gyda landlord. Byddai hyn at ddibenion ymrwymo i gynllun cymorth ariannol penodol (yn yr un ffordd ag y mae tenantiaid fferm yn gosod o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986).

Ymrwymodd y Gweinidog i roi ystyriaeth bellach i welliant 54 ar gyfer Cam 3, ac felly cafodd ei dynnu'n ôl.

Nod y gwelliannau eraill, a gafodd eu gwrthod, oedd:

- sicrhau, yn yr holl amgylchiadau, bod angen caniatâd y landlord, ac felly mae gan y tenant yr opsiwn i wrthwynebu gwrthodiad afresymol y landlord i'w galluogi i gael mynediad i'r cynllun (gwelliant 53);
- alinio rheolau hwsmonaeth dda ag amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy y Bil (gwelliant 55);
- galluogi cronfa ehangach o berthnasau agos i wneud cais i symud i gytundeb tenantiaeth Deddf Daliadau Amaethyddol ar ymddeoliad y tenant nag a ddarperir ar hyn o bryd (gwelliant 59).

## Grŵp 10: Casglu data

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys tri gwelliant (18, 32 a 19) gan Samuel Kurtz AS a'r Gweinidog. Gwelliant y llywodraeth (gwelliant 32) yw'r unig welliant a dderbyniwyd.

Mân welliant technegol oedd gwelliant 32 gan y llywodraeth, gyda'r pwrpas a'r effaith o sicrhau cysondeb wrth ddrafftio drwy gydol y Bil.

Gwelliannau procio oedd gwelliannau 18 a 19 gan Samuel Kurtz AS ac roeddent yn ceisio sicrhau bod deddfwriaeth diogelu data yn cael ei chydnabod o fewn fframwaith y Bil. **Ymatebodd y Gweinidog** i'r gwelliannau gan ddweud:

> The data collection and sharing provisions within the Bill are very detailed and include several limitations and safeguards relating to the purposes for which data can be collected and how the data is to be processed… It continues to be both the policy and wider Welsh Government intent to not sell data on to third parties.

## Grŵp 11: Coedwigaeth

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys dau welliant procio (20 a 21) gan Samuel Kurtz AS, a chafodd y ddau eu tynnu yn ôl yn dilyn dadl.

Esboniodd Samuel Kurtz AS fod y gwelliannau hyn wedi'u cyflwyno i greu trafodaeth ynghylch trwyddedau torri coed a roddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'w hun. **Dywedodd**:

> The current provision permits NRW, the body responsible for issuing, to provide itself with licences for felling on NRW-owned land. Now, this doesn't sit that comfortably with me. Indeed, there are very few sectors where this programme would be permissible and acceptable, so it's with that understanding I wish to ask the Minister her views on the situation a little bit further.

Byddai gwelliant 20 wedi diwygio Deddf Coedwigaeth 1967 drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion benodi corff ar wahân fel yr awdurdod coedwigaeth priodol mewn amgylchiadau lle'r oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgeisydd ar gyfer trwydded torri coed neu'n ddeiliad trwydded. **Ymatebodd y Gweinidog**:

> Any conflict of interest is managed through the functional separation of the regulatory and operational functions within NRW's structure. NRW carry out their roles transparently, and all of their forest resource plans are publicly available online. The fundamental change to the Forestry Act 1967, as proposed by the amendment, is unnecessary and outside the scope of the forestry provisions within the Bill, as introduced.

Nod gwelliant 21 oedd gofyn am adolygiad ar ôl gweithredu o weithrediad y darpariaethau i'w mewnosod yn Neddf Coedwigaeth 1967, a chyhoeddi'r casgliadau o fewn tair blynedd. Ymatebodd y Gweinidog:

> …we have already made the commitment to conduct a post-implementation review of the legislation within three years of commencement of amendments to the Forestry Act 1967, and this is also set out in the explanatory memorandum. Undertaking a post-implementation review is a normal part of introducing primary legislation and does not need to be on the face of the Bill.

## Grŵp 12: Bywyd gwyllt – defnyddio maglau

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys pedwar gwelliant (23, 24, 25 a 22) gan Samuel Kurtz AS. Ni dderbyniwyd yr un ohonynt.

**Dywedodd Samuel Kurtz AS** mai nod y gwelliannau hyn oedd rheoleiddio'n dynn defnyddio a phrynu ataliadau cebl dynol sy'n cydymffurfio â chod - sydd dim ond i'w defnyddio mewn ardaloedd cadwraeth rhywogaethau penodol.

## Grŵp 13: Gweithdrefn gwneud rheoliadau

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys un gwelliant gan y llywodraeth (gwelliant 35) a gafodd ei dderbyn.

Roedd y gwelliant hwn yn mynd i'r afael ag **argymhellion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad** i newid y weithdrefn gwneud rheoliadau o'r weithdrefn negyddol i'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer adrannau 15, 16, 17, 18 a 22 o'r Bil. **Dywedodd y Gweinidog**:

> The affirmative procedure will provide the appropriate opportunity for more robust scrutiny and accountability should Welsh Ministers decide to exercise the power to make regulations in the provisions relating to the basic payment scheme, the common agricultural policy, apiculture, rural development and public market intervention and private storage aid.

## Grŵp 14: Diffinio amaethyddiaeth

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys pedwar gwelliant (26, 27, 36 a 28) gan Samuel Kurtz AS a'r Gweinidog. Derbyniwyd gwelliant y Gweinidog (gwelliant 36) yn unig.

Mae gwelliant 36 gan y llywodraeth yn rhoi eglurder i'r term 'busnesau amaethyddol', er mwyn atal unrhyw faterion yn ymwneud â dehongli rhag codi.

Byddai'r gwelliannau gan Samuel Kurtz AS yn gofyn am newidiadau i ddiffiniad 'amaethyddiaeth' yn y Bil er mwyn cael cydsyniad y Senedd, a sicrhau yr ymgynghorwyd â'r diwydiant ymlaen llaw.

## Grŵp 15: Cychwyn Rhan 4 o Atodlen 7 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 – diwygiadau canlyniadol

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys chwe gwelliant (37, 38, 39, 40, 41 a 42), a gyflwynwyd gan y Gweinidog, a chafodd pob un ei dderbyn.

Maent yn diwygio Atodlen 3 i'r Bil, oedd yn nodi diwygiadau canlyniadol i reoliad trefniadaeth y farchnad gyffredin. **Dywedodd y Gweinidog**, o ganlyniad i gychwyn Rhan 4 o Atodlen 7 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020, y bydd rhannau o Atodlen 3 i'r Bil bellach yn ddarfodedig. Mae'r gwelliannau yn dileu'r darpariaethau hynny i wneud y gyfraith yn gliriach ac yn fwy hygyrch.

### Grŵp 16: Teitl hir

Cafodd yr unig welliant yn y grŵp hwn, sef gwelliant 56 gan Luke Fletcher AS, ei dynnu yn ôl yn dilyn dadl.

Nod gwelliant 56 oedd newid teitl hir y Bil drwy gyfeirio'n benodol at Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 a Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995, yn sgil gwelliant 54 (gweler yr adran 'Tenantiaethau amaethyddol' uchod). Fodd bynnag, tynnwyd gwelliant 54 yn ôl yn dilyn ymrwymiad y Gweinidog i roi ystyriaeth bellach i ymestyn y darpariaethau i denantiaid Deddf Tenantiaethau Amaethyddol 1995. **Dywedodd y Gweinidog**:

> If the Bill is amended at Stage 3 to include amendments to the 1995 Act, then I will reconsider this amendment to the long title at Stage 3.

Tynnodd Luke Fletcher AS y gwelliant yn ôl yn dilyn y sicrwydd hwn.

# 3. Y camau nesaf

Yn dilyn gwaredu'r holl welliannau yn nhrafodion Cyfnod 2 ar 23 Mawrth, dechreuodd y Bil Gyfnod 3 y broses ddeddfwriaethol ar 24 Mawrth 2023. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd Aelodau o'r Senedd (gan gynnwys y Gweinidog) yn cael cyfle i gyflwyno gwelliannau i'r Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod 2. Gellir gweld y gwelliannau a gyflwynwyd **ar dudalen y Bil ar wefan y Pwyllgor**.

Cynhelir trafodion Cyfnod 3 yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 16 Mai.